BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **WEDI EU CADARNHAU**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NH DARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 9 IONWR 2009

Yn bresennol:

Aelodau o'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Jane James
Teresa Rees
Dennis Gethin
Sangeet Bhullar
Andy Carter
Alex McMillan
Nicola Branson
Arun Midha

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni, Saesneg
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni, Cymraeg a Chyfryngau Newydd
Cath Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd

Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC, staff:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Siôn Brynach, Cynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwyydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Jared Walters, Cynorthwyydd Tîm, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales.

Staff Uned Ymddiriedolaeth y BBC:

Jenny Sheahan, Rheolwr Perfformiad, y Tîm Perfformiad (eitemau 6 a 7).
Kate Hawkins, Rheolwr Ymchwil, y Tîm Cynulleidfaoedd (eitemau 6 a 7)
Gareth Barr, Dadansoddwr Polisi, y Tîm Cyllid, Economeg a Strategaeth (eitemau 6 a 7)

01. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Dafydd Whittall
Roy Grant
Carl Cooper
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes, BBC Cymru Wales

02. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Rhoddodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol wybodaeth ddiweddaru i'r Cyngor Cynulleidfa am broses recriwtio'r Cyngor. Byddai cyfweliadau'n cael eu cynnal yn fuan.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor ei bod, ar ôl ystyried ymhellach, yn credu y dylai diwrnod cynllunio a phwyso a mesur y Cyngor gael ei gynnal adeg cyfarfod mis Ebrill y Cyngor. Gwahoddodd farn bellach gan aelodau'r Cyngor. Pwysleisiodd y Cyngor na ddylai'r diwrnod gael ei gynnal yn Nh Darlledu'r BBC.

GWEITHREDU: PLlacAC

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor ei bod wedi cwrdd â Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog dros Gynhwysiant Digidol, yn ddiweddar ac iddo fod yn gyfarfyddiad positif.

Dywedodd fod cyfarfod diweddar yr Ymddiriedolaeth wedi cynnwys trosolwg o ymdriniaeth y BBC o'r dirwasgiad economaidd i sicrhau ei fod yn darparu persbectif ar draws y DU – yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar Ddinas Llundain.

Dywedodd hefyd fod trafodaeth yn parhau ynglyn â dyfodol 2|entertain yn sgil methiant siopau Woolworth.

Adroddiad Cynulleidfaoedd Chwarterol – nododd y Cyngor yr hoffai gael mwy o synnwyr o raddfa yn adran gwynion yr adroddiad hwn.

GWEITHREDU: PLlacAC

Roedd ymateb y Cyngor i gasgliadau dros dro'r Asesiad o Effaith ar y Farchnad (AEF) yng nghyswllt Fideo Lleol wedi cael ei gyflwyno ac felly hefyd ei gyflwyniad i Adolygiad yr Ymddiriedolaeth o Wasanaethau i Gynulleidfaoedd Iau. Pwysleisiodd y Cyngor y dylai ei farn gref ynglyn â phenderfyniad y BBC o ran Fideo Lleol gael proffil uwch yn gyhoeddus. Cytunodd PLlacAC i ystyried y pwynt hwn fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i godi proffil y Cyngor.

GWEITHREDU: PLlacAC

Gwahoddodd HoGA&W aelodau'r Cyngor i anfon sylwadau ar Gynigion Partneriaeth y BBC ato ef neu at y Cynghorydd Atebolrwydd – ond dywedodd hefyd y byddai hyn ar agenda'r Cyngor yn ei gyfarfod fis Chwefror.

Dywedodd HoGA&W fod gwaith yn dechrau ar raglen digwyddiadau maes 2009 y Cyngor. Cytunodd tri aelod o'r Cyngor, i wasanaethu ar is-grŵp i lunio'r rhaglen ddigwyddiadau hon.

Gofynnodd hefyd i aelodau'r Cyngor ymateb yn ddiymdroi ar ôl eu hwythnos yn asesu Newyddion Rhwydwaith o safbwynt ymdriniaeth yn ymwneud â'r DU gyfan fel y gallai'r wybodaeth hon gael ei bwydo i Bwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth yn brydlon a dylanwadu felly ar y gwaith o asesu llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y BBC yn ymateb i Adolygiad Diduedrwydd 2008 yr Ymddiriedolaeth.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai tri aelod o'r Cyngor yn ei gynrychioli yn Niwrnod Cyngor Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth yn ddiweddarach ym mis Ionawr.

ymunodd y rheolwyr â'r cyfarfod

<u>03. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A'R MATERION YN CODI</u>

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

O dan materion yn codi, hysbysodd Rheolwr Cymru y Cyngor fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â dyfodol DAB ond na luniwyd argymhellion pendant eto. Awgrymodd y dylid holi Tim Davie, a fyddai'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror, ynglŷn â'r mater hwn yn y cyfarfod hwnnw a dywedodd ei bod yn galonogol y bu rhywfaint o symud. Cylchredwyd papur hefyd ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cwmpas DAB o safbwynt Radio Wales a Radio Cymru ar draws Cymru.

04. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Hysbysodd y rheolwyr fod y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch Casgliadau Dros Dro AEF Fideo Lleol y BBC ac Adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC o Wasanaethau i Gynulleidfaoedd Iau.

Rheolwr Cymru

Hysbysodd y Cyngor fod y BBC yn paratoi papur manwl mewn ymateb i Gasgliadau Dros Dro y BBC ynghylch Fideo Lleol gan ganolbwyntio ar lenwi'r Bwlch Pwrpas a nodwyd yn glir iawn. Un mater allweddol o hyd oedd faint o gyllid a fyddai ar gael.

Dywedodd y Cyngor, er bod ymrwymiad clir yn BBC Cymru Wales i gau'r bwlch o ran cyflawni'r Pwrpas Cyhoeddus o gynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau yn fwy effeithiol, fod argraff ymysg y Cyngor fod diffyg ymrwymiad cyffelyb yn y BBC ar lefel y DU, a bod hynny'n destun pryder.

Dywedodd Rheolwr Cymru fod BBC Cymru Wales yn ymwybodol iawn o bryderon cynulleidfaoedd ei fod yn canolbwyntio gormod ar Gaerdydd yn ei ddarpariaeth ac ar hynny yr oedd rheolwyr BBC Cymru yn canolbwyntio yn eu hymateb. Y gobaith oedd y byddai'r cynigion yn ddigon cryf i argyhoeddi'r BBC yn ganolog y dylent gael eu cyllido. Hysbysodd y Cyngor hefyd y byddai cynigion BBC Cymru Wales yn cynnwys cyfeiriad at ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ynglŷn â chasgliadau dros dro Fideo Lleol y BBC.

Gan gyfeirio at eiddo, dywedodd Rheolwr Cymru y bu rhywfaint o gynnydd ar y mater hwn. Roedd BBC Cymru Wales yn chwilio am adeilad pencadlys ynghyd â phentref drama mewn un lleoliad os yn bosibl. Roedd trafodaethau ar y gweill gydag Adran Datblygu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn gefnogol i'r syniad. Roedd sawl cwmni cynhyrchu annibynnol wedi cysylltu â'r BBC gyda golwg ar gydleoli pe bai'r syniad yn mynd rhagddo. Cafwyd trafodaeth hefyd gydag ITV ynglŷn â chydleoli. Er nad oedd yr hinsawdd economaidd bresennol yn ymddangos yn amser da ar gyfer datblygiad o'r fath, hysbysodd y Cyngor ei bod yn dal yn hyderus fod cynlluniau ar gyfer datblygiadau o'r fath yn dal yn bositif.

Hysbysodd y Cyngor fod Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal adolygiad o ddiwylliant Cymru ar lwyfan y byd, a bod y BBC yn cyfrannu at hyn gyda thystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

Câi Neuadd Hoddinott ei hagor yn swyddogol ar 23ain Ionawr gan Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC. Roedd y manion olaf yn cael eu gwneud ar hyn o bryd.

Atgoffwyd y Cyngor hefyd fod yr actor newydd i chwarae rhan Doctor Who wedi cael ei enwi'n ddiweddar ac y byddai Matt Smith yn chwarae'r rhan o 2010 ymlaen.

Adroddiad y Bwrdd

Hysbysodd y Pennaeth Datblygu Darlledu y Cyngor fod paratoadau ar waith ar gyfer Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad. Hysbysodd y Cyngor hefyd fod digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd ac mai agoriad Neuadd Hoddinott fyddai'r ffocws dros y misoedd i ddod. Câi'r sioe deithiol nesaf ei chynnal yn Stadiwm Cwmbrân yn gynnar fis Mawrth.

Gofynnodd y Cyngor a gynhaliwyd unrhyw adolygiadau o sgriniau mawr y BBC yng nghanol dinasoedd a dywedwyd bod adolygiad ar y gweill i'w hasesu.

Cyfeiriodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) at y nifer sylweddol o raglenni llwyddiannus yr oedd BBC Cymru wedi'u darparu i gael eu darlledu gan S4C dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Darparodd y BBC raglenni am gemau rygbi a ddarlledwyd gan S4C dros yr un cyfnod gan roi cynulleidfaoedd sylweddol iawn i'r sianel.

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) y gwnaed y cyhoeddiad ynglŷn â'r Doctor Who newydd yn ystod pennod arbennig o *Doctor Who Confidential* a'i bod wedi cael cynulleidfa enfawr. Dywedodd mai Piers Wenger oedd Pennaeth Adran Ddrama BBC Cymru Wales erbyn hyn a bod Julie Gardner bellach yn canolbwyntio ar raglenni arbennig *Doctor Who* cyn ymadael.

Dywedodd y Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd fod rhaglen Nadolig arbennig *Gavin and Stacey* wedi cael derbyniad neilltuol o dda yng Nghymru, gyda ffigurau cynulleidfa uwch na gweddill y DU.

05. CYFLWYNIAD AR Y STRATEGAETH DELEDU CYFRWNG SAESNEG

Y Pennaeth Rhaglenni Saesneg

Hysbyswyd y Cyngor fod Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom wedi cytuno erbyn hyn ar ostyngiad yng nghwotâu Haen 2 BBC Cymru Wales a bod gwasanaethau BBC 2W a BBC 2 Wales yn cael eu cyfuno. Byddai hyn yn galluogi BBC Wales i gynnig gwell gwasanaeth i gynulleidfaoedd yn ogystal â pheidio â gwario mwy na'i incwm.
Gan gyfeirio at lwyddiannau, hysbysodd y Cyngor fod mantais BBC Wales o ran cyfran gyfartalog ar raglenni ar wahân i newyddion yn chwarter olaf 2008 wedi bod +3.8% uwchlaw'r Rhwydwaith – yr uchaf ers 5 mlynedd. Cyfrannodd *Coal House at War* at hyn, gan sicrhau +4 pwynt uwchlaw'r Rhwydwaith a chynulleidfa o 210,000 ar gyfartaledd. Roedd y rhaglenni rygbi domestig hefyd wedi effeithio'n sylweddol ar berfformiad e.e. cyfrannodd gêm y Gleision yn erbyn y Gweilch gyfran o +7% uwchlaw'r Rhwydwaith, 160,000 o wylwyr a mynegai gwerthfawrogi uchel.

Gan gyfeirio at bwysau i'r dyfodol, hysbysodd y Cyngor fod y rhain yn cynnwys llai o adnoddau ariannol – roedd £23.1m ar gael iddi yn 2003/04 ond dim ond £20.3m yn 2008/09. Dywedwyd wrth y Cyngor fod hyn ar adeg pan oedd cynulleidfaoedd yn darnio ar draws sianelau a bod rhaid felly i BBC Cymru Wales barhau i wneud argraff sylweddol, ond fod llai o arian ar gael er mwyn gwneud hynny. Her arall sylweddol oedd nad yw cynulleidfaoedd teledu BBC Cymru Wales (ynghyd â'r cynulleidfaoedd i holl deledu'r BBC yn gyffredinol) yn adlewyrchu proffil oedran y boblogaeth drwyddi draw o hyd.

Wrth ymdrin â'r cwestiwn 'beth yw ein diben?', dywedodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) mai un nod allweddol yw cysylltu rywsut â phob aelwyd yng Nghymru, ryw adeg bob wythnos a darparu cynnwys iddynt y maent yn ei fwynhau. Rhaid hefyd archwilio beth mae byw yng Nghymru yn ei olygu a deall ein gorffennol. Roedd newyddion hefyd yn gyswllt allweddol â chynulleidfaoedd ac roedd wrth galon yr hyn a gynigir gan BBC Cymru Wales. Roedd y rhain i gyd yn cyfrannu at y nod sylfaenol o gyflawni Pwrpasau Cyhoeddus y BBC.

Gan danlinellu ei hamcanion yn y tymor byr i ganolig, tanlinellodd yr angen i ehangu cyrhaeddiad, yn enwedig ymysg pobl o dan 55 oed, yn ogystal â pharhau i ychwanegu at y gyfran o'r Rhwydwaith – fel bod yr hyn a ddarperir gan BBC Cymru Wales yn denu rhagor o wylwyr at sianelau'r BBC. Tanlinellodd hefyd yr angen i gynyddu argraff a, thrwy hynny, ddarparu gwerthfawrogiad tymor hir o'r cynnyrch ei hun ac o'r BBC.

Yn y cyd-destun hwn, darparodd rai elfennau sylfaenol o'i strategaeth gomisiynu ac amserlennu i'r Cyngor. Y gyntaf oedd lleihau'r nifer o raglenni (ar wahân i newyddion) a ddarlledir ar BBC 2 yn gynnar fin nos – o 18 awr yn 2008/09 i 11 awr yn 2009/10. Yr ail oedd cynyddu'r nifer o oriau o raglenni a ddarlledir ar BBC One yn ystod oriau brig: 34 awr i 38 awr. Rhaid wrth gost uwch yr awr i gynhyrchu rhaglenni i'w darlledu yn ystod oriau brig BBC One, ac roedd y risg o fethu yn fwy, ond roedd y wobr yn fwy hefyd. Un nod oedd creu ymdeimlad o ddigwyddiad o amgylch prosiectau amlblatfform, drwy fod yn feiddgar gyda'r amserlen. Fel enghreifftiau, enwodd *Hospital 24/7* a fyddai'n ymddangos yn fuan ac yn cael ei darlledu ar draws 4 diwrnod yn y slot 22:35 ar BBC One, a *Life Swap* a gâi ei darlledu ddwywaith yr wythnos yn ystod yr oriau darlledu brig.

Câi'r cynnyrch ei leihau er mwyn rhoi'r strategaeth gyfan ar waith o fewn y gyllideb. O ganlyniad, ni fyddai cyfresi drama fel *High Hopes* a *Belonging* yn dychwelyd ym mlwyddyn ariannol 2009/10 gan fod y gost yr awr i gynhyrchu'r cyfresi hyn yn gymharol uchel ar gyfer y slot 22.35pm ac, o dan yr amgylchiadau ariannol presennol, dim ond ar raglenni i'w darlledu yn yr oriau brig y gellid cyfiawnhau'r gwariant gofynnol. Hysbysodd y Cyngor hefyd, er y byddai dramâu newydd yn cael eu lansio i'w darlledu yn ystod yr oriau brig, nad oedd unrhyw arian yn y gyllideb ar gyfer comedi, a bod rhaglenni hanes o safon uchel hefyd yn cael eu hepgor dros y flwyddyn ariannol i ddod. Dywedodd fod Tony Jordan a Russell T Davies â rhan yn y dramâu newydd sydd i gael eu darlledu dros y ddwy flynedd nesaf.

Fformat rhaglen ddogfen sydd i *Life Swap* a'i nod oedd cael y genedl i siarad ac arwain trafodaeth genedlaethol gynhwysol a heriol am yr hyn sy'n digwydd i blant Cymru. Hysbyswyd y Cyngor hefyd fod prosiect amlblatfform yn cael ei gynllunio ar gyfer yr hydref ynghylch mater cyfoes o bwys a bod arbrawf 'byw hanesyddol' arall yn cael ei ystyried hefyd (er na fyddai glo'n rhan ohono).

Yn ogystal, roedd rhaglenni Chwaraeon, Newyddion a Ffeithiol Poblogaidd i gyd yn parhau'n genres allweddol i BBC Cymru Wales er mwyn cyflawni Pwrpasau Cyhoeddus y BBC. Gan gyfeirio at y rhain yn eu tro, dywedodd fod Cynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil yn cael eu darparu gan raglenni Newyddion a Materion Cyfoes, sy'n cynnwys ymdriniaeth wleidyddol, ond fod ffyrdd newydd o ymdrin â materion gwleidyddol cyfoes hefyd yn cael eu hystyried – megis y rhai a amlygwyd gan Bennaeth Addysg a Dysgu BBC Wales yn ystod ei chyflwyniad i gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor. Byddai'r prosiect gwleidyddiaeth i bobl ifanc ar y teledu ac ar-lein hefyd yn cyfrannu at y pwrpas hwn.

Hysbysodd y Cyngor fod y Pwrpas o Hyrwyddo Addysg a Dysgu hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy brosiectau meithrin gwybodaeth fel *Coal House at War, Hidden Histories, When Wales shook the world*, a rhaglenni dogfen ym maes celf.

Câi Ysgogi Creadigrwydd a Rhagoriaeth Ddiwylliannol eu meithrin gan gynnyrch diwylliannol megis cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd y BBC a phrosiectau drama newydd. Câi hyn ei wneud hefyd drwy feithrin doniau creu rhaglenni o bwys.

Câi Cynrychioli'r DU, ei Gwledydd, ei Rhanbarthau a'i Chymunedau ei gyflawni drwy'r rhan fwyaf o'r hyn a wneir gan BBC Cymru Wales a dywedodd fod gwaith ar y gweill i gydgomisiynu rhaglenni gyda sianelau Rhwydwaith a fyddai'n darparu cynrychiolaeth ar draws y DU.

Wrth ddod â'i chyflwyniad i ben, amlygodd rai o'r peryglon a'r cyfleoedd a dywedodd mai'r perygl mwyaf yw nad yw BBC Cymru Wales yn cymryd risg – a'i fod yn aros gyda'r hyn y mae'n gyfforddus ag ef, y g□yr ei fod yn gweithio, yn hytrach na bod yn arloesol ac arbrofi. Dywedodd fod yna risg ynghlwm bob amser wrth ddramâu newydd costus ond y gallai'r wobr hefyd fod yn enfawr. Pwysleisiodd bwysigrwydd cadw ac ennill yr hawl i ddarlledu chwaraeon. Fodd bynnag, dywedodd fod adran fewnol y BBC a chyflenwyr annibynnol yn cael anhawster i gynnal ansawdd gyda'r pwysau sydd ar gyllidebau ar hyn o bryd a bod cynhyrchwyr cynnwys yn dal i ddysgu o ran datblygu prosiectau amlblatfform.

Gofynnodd y Cyngor i ba raddau y byddai diflaniad 2W yn effeithio ar allu BBC Wales i arbrofi? Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg mai'r hyn a olygai uwchlaw popeth oedd y byddai rhaid i bob risg fod yn un ofalus o hyn ymlaen.

Gofynnodd y Cyngor sut yr oedd cynulleidfaoedd sy'n defnyddio cyfleuster recordio i wylio rhaglen yn ddiweddarach yn cael eu cofnodi yn y ffigurau gwylio. Ymatebodd y Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd drwy ddweud bod adroddiadau'n dod i law oddi wrth gwmnïau fel Virgin ar wylwyr a oedd wedi defnyddio'r iPlayer drwy wasanaeth cyfryngau Virgin a bod gwylwyr sy'n gwylio rhaglen wedi'i recordio o fewn 24 awr i'r darllediad cyntaf yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a ddarperir gan BARB.

Gofynnodd y Cyngor hefyd sut oedd BBC Cymru Wales yn hyrwyddo gwylio teledu sy'n pontio'r cenedlaethau. Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg ei bod yn cytuno ei bod yn bwysig apelio at wylwyr o wahanol oedran a bod rhaid i raglenni y buddsoddir yn helaeth ynddynt fel *Coal House* / *Coal House at War* apelio ar draws y cenedlaethau. Roedd y cyfrifoldeb hwn yn ystyriaeth o bwys wrth gomisiynu rhaglenni.

06. CYFLWYNIAD AR YMCHWIL A GOMISIYNWYD AR RAN YR YMDDIRIEDOLAETH I ARGRAFFIADAU'R GYNULLEIDFA O DDARLLEDU GWASANAETH CYHOEDDUS

Rheolwr Ymchwil Tîm Cynulleidfaoedd Ymddiriedolaeth y BBC a Dadansoddwr Polisi Tîm Cyllid, Economeg a Strategaeth Ymddiriedolaeth y BBC

Atgoffwyd y Cyngor fod ail adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC) Ofcom wedi dechrau ym mis Medi 2007 ac i gasgliadau'r cam cyntaf gael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2008. Disgwylid i argymhellion terfynol Ofcom gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2009.

Roedd ymateb Ymddiriedolaeth y BBC wedi pwysleisio maint y broblem, pwysigrwydd rôl barhaus i ITV, Channel 4 a Five a materion yn ymwneud â chyllido. Fel rhan o'r drafodaeth ar faterion yn ymwneud â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, cynhyrchodd Gweithrediaeth y BBC gynigion partneriaeth a oedd yn cynnwys iPlayer *gwasanaeth cyhoeddus* a rennir, i gael ei ddefnyddio gan yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; agor mynediad at gynnwys gweledol a chyfleusterau darlledu rhanbarthol; datblygu gwasanaethau rhyngrwyd drwy'r teledu; meysydd posibl o gydweithredu masnachol rhwng BBC World Wide a Channel 4; rhannu ymchwil ac arloesi, hyfforddiant ac ymchwil ynghylch cynulleidfaoedd gyda gweddill y diwydiant; a harneisio cryfder a phoblogrwydd *bbc.co.uk* i yrru cyrhaeddiad darpariaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ar y we a'r defnydd ohoni.

Dywedodd y BBC hefyd ei fod am ymchwilio i ganfod a allai wneud mwy i gefnogi'r diwydiant papurau newydd ac awgrymwyd y gallai'r BBC roi heibio'r taliadau am restrau teledu gan y byddai hynny o fudd i'r sector papurau newydd a chylchgronau, a threialu rhannu cynnwys gyda phapurau newydd.

Ymysg y materion a oedd dan sylw ar y pryd roedd y posibilrwydd y byddai Channel 4 a Five yn uno a bu awgrymiadau hefyd y gallai Channel 4 a BBC World Wide daro bargen. Awgrymodd y BBC hefyd bartneriaethau gyda Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill.

Fel rhan o'i pharatoadau i baratoi ar gyfer Cam 2 o Adolygiad DGC Ofcom, roedd Ymddiriedolaeth y BBC wedi cyd-gomisiynu rhaglen o ymchwil cynulleidfaoedd ansoddol a meintiol gyda rheolwyr y BBC. Y nod oedd adeiladu ar y gwaith a wnaed gan y BBC a'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Cam 1. Roedd y gwaith diweddaraf hefyd yn cwmpasu dau faes nas cynhwyswyd gynt – y cysylltiad rhwng y gynulleidfa, y BBC a ffi'r drwydded; a'r blaenoriaethau a briodolir gan gynulleidfaoedd i'r ddarpariaeth a'r parodrwydd i dalu i gynnal genres sydd mewn perygl. Cynhwyswyd canfyddiadau allweddol yn y cyflwyniad i Ofcom i ddarparu tystiolaeth na ddylai ffi'r drwydded gael ei brigdorri; fod amcangyfrif Ofcom o'r parodrwydd i dalu am DGC yn rhy uchel; ac mai ar flaenoriaethau'r gynulleidfa y dylai unrhyw atebion yn y sector ganolbwyntio.

Roedd dau ddarn o waith meintiol ar ffi'r drwydded a pharodrwydd i dalu, a wnaed gyda 6 gr□p ffocws ar draws y DU er mwyn deall y cyswllt â ffi'r drwydded yn well.

Daeth yr ymchwil i'r casgliad fod y cyswllt rhwng ffi'r drwydded a'r BBC yn un cymhleth. Yn y grwpiau ffocws, roedd y rhan fwyaf o bobl yn deall ffi'r drwydded fel rhywbeth yr oedd rhaid iddynt ei dalu fel y gallent wylio pob sianel deledu, A bod hynny weithiau'n cyllido amryw o wasanaethau'r BBC ar draws gwahanol blatfformau. Awgrymai ymchwil Ofcom fod yr ymwybyddiaeth o'r hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano yn isel ar hyn o bryd, a'r casgliad y daethpwyd iddo wedyn oedd na allai pobl wrthwynebu iddi gael ei defnyddio i gyllido darlledwyr eraill felly. Mewn cyferbyniad, awgrymai arolwg meintiol y BBC / Ymddiriedolaeth y BBC fod yr ymwybyddiaeth yn llawer uwch – 70% yn ddigymell ac 86% o gael eu cymell.

Dangosai'r ymchwil fod pobl yn teimlo'n wahanol am y BBC oherwydd y ffordd y caiff ei gyllido a'u bod yn credu bod ffi'r drwydded yn dod â buddion pwysig i'r cyhoedd – gwasanaethau safonol, rhywbeth i bawb, BBC heb hysbysebion. Fodd bynnag, dangosai'r ymchwil hefyd fod gan bobl ddisgwyliadau clir o'r BBC oherwydd y cyswllt. Teimlai'r rhai a oedd yn ymateb fod ffi'r drwydded yn rhoi'r hawl iddynt i fod yn feirniadol o'r BBC ac roedd y disgwyliadau'n llawer uwch o ran atebolrwydd. Roedd y rheini a wyddai fwy am beth y mae ffi'r drwydded yn talu amdano hyd yn oed yn fwy tebygol o deimlo y dylai'r BBC fod yn atebol.

Gofynnai'r ymchwil pa mor bwysig oedd hi i bobl fod eu haelwyd yn cadw darpariaeth y tu hwnt i'r BBC yn y genres sydd mewn perygl (roedd y genres hyn wedi cael eu rhestru drwy fodelu economaidd Cap Gemini) ac roedd yr ymatebion yn amrywio yn ôl genre. Teimlai tua hanner (51%) ei bod yn hanfodol i'w haelwyd fod ITV 1, Channel 4 neu Five yn parhau i ddangos newyddion cenedlaethol neu ryngwladol yn y dyfodol. Teimlai 47% yr un fath yng nghyd-destun newyddion o'u rhan hwy o'r DU. Câi blaenoriaeth is ei rhoi i genres eraill sydd mewn perygl, e.e. dim ond 9% a ddywedodd ei bod yn hanfodol i raglenni crefyddol gael eu darparu gan gwmnïau ar wahân i'r BBC.

Gwerthusodd yr ymchwil hefyd barodrwydd y cyhoedd i dalu i gadw darpariaeth mewn genres gwahanol. Sefydlwyd hyn drwy ofyn i'r rhai a oedd yn ymateb beth yw'r cyfanswm y byddai eu haelwyd yn ei dalu i danysgrifio i ITV1, C4 a Five; a gofyn iddynt ddyrannu 100 pwynt rhwng yr holl genres sydd ar gael ar bob sianel ar hyn o bryd. Canfu'r ymchwil y byddai'r rhai a oedd yn ymateb yn barod ar gyfartaledd i dalu tua £1.28 yr aelwyd y mis, am yr holl genres sydd mewn perygl (ffigur is na'r un a ganfu Ofcom), ond roedd cryn wahaniaethau rhwng genres gyda newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn dod yn uchaf ymysg yr holl genres. Roedd llai o barodrwydd i dalu am newyddion rhanbarthol ond, drwyddi draw, byddai pobl yn talu leiaf am raglenni plant wedi'u cynhyrchu yn y DU, er bod y canlyniadau i aelwydydd sydd â phlant ifanc yn ddealladwy yn wahanol iawn.

Gofynnodd y Cyngor pa genres y byddai'r rhai a oedd yn ymateb yn fwyaf parod i dalu amdanynt? Roedd 10 o'r 12 genre uchaf a grybwyllwyd yn rhai nad ydynt mewn perygl, yn cynnwys ffilmiau, mewnforion o'r UD, Chwaraeon, Drama ac ati.

Gofynnodd y Cyngor hefyd a oedd y sampl ymchwil o Gymru yn ddigon mawr i allu canfod gwahaniaethau barn yng Nghymru, o'i chymharu â gweddill y DU? Dywedodd y rheolwr ymchwil y byddai hynny'n bosibl efallai a bod gwaith pellach ar y data yn cael ei gynllunio. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael ei wneud eto.

07. CYFLWYNIAD AR Y PECYN PERFFORMIAD A GREWYD GAN DÎM PERFFORMIAD UNEDAU'R YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER Y CYNGHORAU CYNULLEIDFA

Y Rheolwr Perfformiad, y Tîm Perfformiad, Ymddiriedolaeth y BBC.

Hysbysodd y Cyngor fod y Pecyn Perfformiad wedi cael ei seilio ar wybodaeth a dderbynnir oddi wrth reolwyr y BBC yn chwarterol. Hysbyswyd y Cyngor mai'r elfen fwyaf newydd yw'r siart 'dangosfwrdd' ar ddechrau'r adroddiad a ddyfeisiwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Seiliwyd y matrics allweddol ar fesuriadau Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth am Arian (RQIV) yr Ymddiriedolaeth. Bwriadwyd y pecyn i ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor ac fel ysgogiad i waith maes.

Gan grynhoi casgliadau allweddol yr adroddiad, dywedodd y rheolwr perfformiad fod y gynulleidfa radio yn gostwng drwyddi draw, ond bod y nifer o oriau o wylio'r teledu ar gynnydd a bod defnydd ar-lein hefyd yn cynyddu. Roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru yn gwylio mwy o oriau o deledu na chyfartaledd y DU ac roedd y gymeradwyaeth i'r BBC yn gyffredinol yng Nghymru hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y DU.

Gan gyfeirio at y ffordd y gwneir y mesuriadau, dywedodd mai BARB sy'n mesur yr oriau gwylio. Dangosai ffigurau diweddar fod gwylio'r teledu ar draws y DU wedi cynyddu i ryw 3 awr o deledu y dydd, 28.8 awr yr wythnos ond fod y lefel yng Nghymru ychydig yn uwch.

Câi gwrando ar y radio ei fesur drwy ddyddiadur hunangofnodi (sy'n gallu bod braidd yn fympwyol) ond roedd yn ddefnyddiol i ddangos tueddiadau hanesyddol. Roedd llai o wrando ar y radio ac ar hyn o bryd roedd oddeutu 22.5 awr yr wythnos. Roedd y lefel wrando yn gostwng ymysg oedolion iau yn arbennig ac roedd wedi disgyn i 2.5 awr yr wythnos yn y 5 mlynedd diwethaf ymysg pobl ifanc 15-24 oed. Yng Nghymru, roedd cyrhaeddiad y radio yn 72% – tua 18 awr o wrando yr wythnos. Roedd y lefelau gwrando yn uwch yng Nghymru na'r cyfartaledd i'r DU.

Hysbyswyd y Cyngor fod gwaith ar y gweill ar y pryd i newid y ffordd o fesur trawiadau ar y wefan, ond o ddefnyddio'r mesurau presennol gwelid bod 25% o oedolion yn cyrchu at

bbc.co.uk. Roedd band eang yn ffactor llywodraethol o ran annog cyrchu at a defnyddio gwasanaethau ar-lein. Roedd gwaith pellach ar y gweill hefyd i fesur lefelau defnydd gwasanaethau ar-lein fel iPlayer a gwasanaethau ar-gais.

Gan gyfeirio at gyfraddau cymeradwyaeth y BBC, dywedodd fod y gymeradwyaeth ar 6.6 /10 ar draws y DU, bod y gyfradd gyfatebol yng Nghymru yn 6.7 a bod y gyfran uchaf o'r rhai sy'n rhoi cymeradwyaeth uchel i'r BBC wedi'i lleoli yng Nghymru (h.y. y rhai sy'n rhoi gradd gymeradwyo o 8 neu fwy i'r BBC). Roedd 75% o oedolion yng Nghymru yn gwylio BBC One ond roedd cyfradd BBC Two yn is ar 55.5% er ei fod yn ddiweddar wedi adfer ei safle drwy raglenni fel *Dragon's Den* a *Top Gear*.

Dywedodd y Cyngor ei bod yn bwysig iawn fod y data crai a gyflwynir yn yr adroddiad perfformiad yn cael ei roi yn ei gyd-destun fel y gellid deall y wybodaeth yn iawn.

08. MATERION BLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

1. Roedd y Cyngor o'r farn fod angen i'r Ymddiriedolaeth godi proffil y Cynghorau Cynulleidfa o ran eu rôl yn adlewyrchu barn cynulleidfaoedd y BBC, a'r effaith a gânt ar feddylfryd yr Ymddiriedolaeth, fel rhan o'r gwaith i godi proffil yr Ymddiriedolaeth ei hun.
2. Y dylai'r Ymddiriedolaeth, yng ngoleuni casgliadau dros dro AEF Lleol y BBC, sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r Pwrpas Cyhoeddus o gynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau yn fwy effeithiol drwy ddod â chynigion am wasanaethau newyddion gerbron yr Ymddiriedolaeth sy'n adlewyrchu cymunedau lleol yn well.

09. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai ei gyfarfod nesaf ar 6ed Chwefror 2009 yn Nh Darlledu'r BBC, Caerdydd, ac y câi cinio preifat i'r Cyngor ei gynnal fin nos y 5ed Chwefror.